# PAPURAU BUSNES

## 20 Mehefin 2000

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybuddion o Gynigion a Gwelliannau i’w Trafod yn y Dyfodol

## Cynigion a gyflwynwyd ar 13 Mehefin 2000

**NDM325 Peter Black (Gorllewin De Cymru);**

"Mae’r Cynulliad yn cytuno i gyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai i ddod â Gorchymyn drafft o dan Adran 189 o Ddeddf Tai 1996 gerbron y Cynulliad o fewn 4 mis i estyn y categorïau o bobl ddigartref sy’n cael eu hystyried mewn sefyllfa o flaenoriaeth o ran anghenion llety i gynnwys y bobl ganlynol:

- pobl ddigartref 16 i 18 oed
- pobl wedi gadael gofal
- carcharorion yn syth ar ôl iddynt gael eu rhyddhau o’r ddalfa sydd heb lety i ddychwelyd iddo
- pobl yn gadael y gwasanaethau arfog sydd heb lety i fynd iddo
- pobl yn dianc rhag trais ac aflonyddwch

Y Gorchymyn i fod yn berthnasol i Gymru gyfan. Y gwaith paratoi i ddechrau ar unwaith".

**NDM326 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, drwy weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33, yn cymeradwyo fersiwn ddrafft o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforion ac Allforion) Cymru a Lloegr 2000. Gosodwyd copi o’r Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000.

**NDM327 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn y Cynllun Marchnata Gwlân Prydain (Diwygiad) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM328 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n ymwneud â’r Gorchymyn Drafft, Gorchymyn y Cynllun Marchnata Gwlân Prydain (Diwygio) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2000;
b. yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM329 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor y Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM330 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n ymwneud â’r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Ieithoedd Tramor Modern) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mehefin 2000.
b. Yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM331 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor y Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM332 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe)**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

a. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau sy’n ymwneud â’r Gorchymyn drafft, Gorchymyn Pwnc Sylfaen (Diwygio) (Cymru) 2000.

(b) yn cymeradwyo y gwneir y Gorchymyn yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa

Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM333 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, o dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.10, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Diogelwch Ffyrdd yn Lleol (Rhif 7) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000.

**NDM334 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad yn nodi’r amserlen arfaethedig 3 mis o Fusnes y Cynulliad a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Mehefin 2000, o dan Reol Sefydlog 5.1.

**NDM335 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

Ystyried egwyddor Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**NDM336 Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:

Ystyried egwyddor Rheoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Pobl Anabl) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mai 2000.

**Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 14 Mehefin 2000**

Cynnig bod y Cynulliad yn gwneud y gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM328**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

Ym mharagraff (a) rhoi ‘14 Mehefin 2000’ yn lle ‘6 Mehefin 2000’.

**Gwelliannau a Gyflwynwyd ar 15 Mehefin 2000**

Cynnig bod y Cynulliad yn gwneud y gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM325**

**Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**

- Dileu popeth o "cytuno" i "y bobl ganlynol" a rhoi yn ei le,

  "cydnabod bod gan y grwpiau canlynol o bobl anghenion llety arbennig a dybryd nad ydynt yn aml yn cael blaenoriaeth briodol"

- Dileu popeth o "Y Gorchymyn i fod" at y diwedd a rhoi yn ei le,

  "ac yn unol â hynny mae'n cyfarwyddo Ysgrifennydd y Cynulliad dros Lywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai i ystyried ar frys y ffordd orau o gwrdd â'r anghenion hynny yng Nghymru, gan ymgynghori â'r awdurdodau lleol ac eraill sydd â diddordeb, ac i ddod ag unrhyw is-ddeddfwriaeth briodol gerbron wedi hynny" .